# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-13-06(p.6)

### Dyddiad: 28 Medi 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Mesurau amddiffyn Bournewood

#### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynigion Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr ar driniaeth a gofal pobl sy'n dioddef o salwch neu anabledd meddyliol, nad ydynt yn meddu ar y gallu meddyliol ac sydd y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

#### Crynodeb / Argymhellion

Drwy Fesur i ddiwygio Deddf Gallu Meddyliol 2005, a fydd hefyd yn diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983, bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth i gau'r hyn a elwir yn 'bwlch Bournewood'. Dywedodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar y caiff y Mesur hwn ei gyflwyno yn y senedd cyn gynted ag y bydd amser yn caniatáu.

Bydd y ddeddfwriaeth yn nodi na all unrhyw un nad yw'n meddu ar y gallu meddyliol gael ei amddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i'r amddifadu hwnnw gael ei awdurdodi.

#### Cefndir

Ar Fehefin 29ain 2006, bu i Rosie Winterton, y Gweinidog Gwladol dros Wasanaethau Iechyd a'r Adran Iechyd, wneud Datganiad Ysgrifenedig ynghylch cynigion Llywodraeth y DU am yr hyn a elwir yn 'fesurau amddiffyn Bournewood'.

Ymateb i ddyfarniad yn Llys Hawliau Dynol Ewrop yn 2004 yw cynigion Llywodraeth y DU mewn achos yn ymwneud â dyn awtistig nad oedd yn meddu ar y gallu meddyliol i gydsynio ac fe'i cadwyd yn Ysbyty Bournewood gan ddoctoriaid yn erbyn dymuniadau ei ofalwyr. Dyfarnodd y llys ei fod wedi'i amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon.

Mae'r hyn a elwir yn 'fwlch Bournewood' yn codi pan fydd pobl nad ydynt yn meddu ar y gallu meddyliol i gydsynio ac y mae angen gofal neu driniaeth arnynt mewn amgylchiadau sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid - megis pobl sy'n dioddef o ddemensia neu awtistiaeth ddifrifol - mae'r bobl hyn wedi bod 'o dan orchymyn' yn flaenorol o dan gyfraith gwlad, yn hytrach nac o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac felly nid oes ganddynt fesurau amddiffyn na diogelwch cyfreithiol

digonol. Yn dilyn penderfyniad Llys Ewrop ymrwymodd yr Adran Iechyd i gyflwyno deddfwriaeth newydd i gau 'bwlch Bournewood'.

I lywio ymateb Llywodraeth y DU cyflawnwyd ymarfer ymgynghori ym mis Mawrth 2005, gan wahodd sylwadau ar ddewisiadau i gau'r 'bwlch'.

Y rhai hynny y mae cynigion Bournewood yn debygol o effeithio arnynt yw'r rhai sydd ag anableddau dysgu sylweddol yn bennaf, neu bobl hyn sy'n dioddef o ddemensia, ond bydd yn cynnwys lleiafrif o bobl eraill sydd wedi dioddef niwed i'r ymennydd, er enghraifft. Bydd y cynigion yn berthnasol i'r rheini mewn ysbytai neu gartrefi gofal, boed o dan drefniadau cyhoeddus neu breifat.

Dyma brif nodweddion y cynigion:

- Bydd gan ysbytai a chartrefi gofal ddyletswydd i enwi unrhyw un sydd mewn perygl o gael ei amddifadu o'i ryddid ac, os na fyddant yn ystyried bod system lai caeth yn bosibl, bydd rhaid gofyn am awdurdodiad gan y corff goruchwylio. Y corff goruchwylio yw'r Awdurdod Lleol yn achos cartref gofal, neu yn achos ysbyty, Gweinidogion Cymru; yn ymarferol bydd Gweinidogion Cymru yn debygol o ddirprwyo i gomisiynwyr iechyd
- Bydd yn anghyfreithlon i ysbyty neu gartref gofal amddifadu person o'i ryddid heb gael awdurdod
- Mae'n rhaid i bawb sydd ynghlwm weithredu er budd gorau'r person o dan sylw ac yn y modd lleiaf caeth
- Bydd y corff goruchwylio'n comisiynu asesiadau gan gynnwys asesiad annibynnol "budd gorau" a fydd yn ystyried a yw amddifadu person o'i ryddid yn angenrheidiol er budd gorau'r person ai peidio.
- Bydd yr aseswr budd gorau'n trefnu'r cyfnod adolygu ym mhob achos. Ni all hyn fod yn fwy na 12 mis.
- Ymgynghorir â theulu, ffrindiau a gofalwyr fel rhan o'r asesiad budd gorau, ac, os nad oes gan berson un o'r uchod, penodir Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol.
- Dim ond os bydd yr holl asesiadau'n argymell hynny y bydd y corff goruchwylio'n rhoi awdurdod.
- Dylid cael awdurdod ymlaen llaw, ac eithrio mewn amgylchiadau a ystyrir yn rhai brys, ac yn yr achosion hynny dylid cael awdurdod o fewn saith niwrnod i ddechrau'r amddifadu o ryddid.
- Bydd gan bob person sydd dan orchymyn rhywun wedi'u penodi i gynrychioli eu buddiannau ac na fydd yn rhan o'r corff goruchwylio, yr ysbyty na'r cartref gofal. Gall hyn fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr.
- Bydd gan reolwyr yr ysbyty neu'r cartref gofal ddyletswydd i fonitro amgylchiadau'r person oherwydd gall unrhyw newid olygu y bydd yn rhaid iddynt wneud cais i'r corff goruchwylio am adolygu'r awdurdod.
- Gall y person o dan sylw neu ei gynrychiolydd ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg hefyd.
- Bydd gan y person o dan sylw neu gynrychiolydd iddynt, yr hawl i apelio i'r Llys Amddiffyn ar unrhyw adeg.
- Os oes modd defnyddio deddfwriaeth iechyd meddwl yn lle, ni ellir defnyddio'r drefn newydd i dderbyn pobl i ysbyty neu eu cadw yno i gael triniaeth at salwch meddwl os mai'r farn resymol yw bod y person o dan sylw yn gwrthwynebu cael ei gadw at ddibenion y fath driniaeth neu byddai'n gwrthwynebu pe byddai mewn sefyllfa i wneud hynny.

Cyflwynir y darpariaethau i Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 drwy Fesur a fydd hefyd yn diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## Goblygiadau Ariannol

Bydd y prif gostau'n gysylltiedig â'r elfen asesu o awdurdodiad, ac felly cânt eu talu gan y corff goruchwylio. Bydd Llywodraeth y DU yn cynhyrchu Asesiad Effaith Reoleiddiol (RIA) i ategu'r broses o gyflwyno'r cynigion hyn i'r Senedd. Bydd yr Asesiad Effaith Reoleiddiol yn cynnwys costau'r cynigion hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda'r Adran Iechyd i lunio costau i'w cynnwys yn yr Asesiad Effaith Reoleiddiol hwn, fodd bynnag disgwylir y caiff y costau eu cynnwys o fewn yr adnoddau a nodwyd eisoes ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl.

Mae Cyfarwyddiaeth Adnoddau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweld cynnwys y papur hwn (NG2722) a'i nodi.

## Themâu Trawsbynciol

Cyflwynir y cynigion hyn gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod pob claf yn cael gofal sy'n gyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cau 'bwlch Bournewood'.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Pwynt Cyswllt: Claire Fife, Is-adran Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd Ffôn: 029 2082 6988